***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1820

## Rheoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) 2015

## RHAN 2

### Asesiadau o anghenion a llwybrau cynllun

**Adolygu cynlluniau llwybr**

**7.**—(1) Rhaid i'r awdurdod lleol cyfrifol adolygu cynllun llwybr pob person ifanc categori 2, categori 3 a chategori 4 yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol cyfrifol drefnu adolygiad—

(a) os gofynnir iddo wneud hynny gan y person ifanc categori 2, categori 3 neu gategori 4,

(b) os yw'r awdurdod lleol cyfrifol, neu'r cynghorydd personol, yn tybio bod adolygiad yn angenrheidiol,

(c) os yw'r person ifanc dan gadwad ac, fel arall, na fyddai adolygiad yn digwydd cyn bo'r person ifanc yn peidio â bod dan gadwad, a

(d) beth bynnag fesul ysbaid o ddim mwy na 6 mis.

(3) Os yw'r awdurdod lleol cyfrifol yn darparu llety i'r person ifanc categori 2, categori 3 neu gategori 4 yn unol ag adrannau 109, 110 neu 112 o'r Ddeddf, rhaid i'r awdurdod lleol cyfrifol hefyd—

(a) trefnu adolygiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod y darparwyd llety gyntaf, a

(b) ar ôl cwblhau adolygiad o dan is-baragraff (a), penderfynu fesul pa ysbaid (o ddim mwy na 3 mis) y cynhelir adolygiadau dilynol.